



Ein cyf/Our ref: KS/212/20

Aelodau'r Senedd
Aelodau Seneddol Cymru

28 Mai 2020

Annwyl Gyfeillion,

Yn dilyn fy natganiad llafar ar 20 Mai 2020 lle bûm yn amlinellu fy ymateb i COVID-19, hoffwn egluro pa gymorth ariannol yr ydym wedi'i ddarparu a rhoi rhagor o wybodaeth ichi am y cwmnïau sydd wedi cael cymorth.

Mae cymorth gydag ardrethi annomestig, sy'n cael ei weinyddu drwy'r awdurdodau lleol, yn rhoi rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £51,000 neu lai, ac mae cymorth grant ychwanegol yn cael ei roi hefyd, fel y dangosir isod:

- Grant o £25,000 ar gyfer busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000.
- Grant o £10,000 i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ac sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Cronfa Cadernid Economaidd, sy'n werth £500 miliwn, i helpu busnesau, mentrau cymdeithasol ac elusennau nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan gynlluniau grant eraill nad oes angen eu had-dalu ac sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Covid-19. Yn ystod y cam cyntaf, cafodd y cynllun benthyca gwerth £100 miliwn a gynigiwyd gan Fanc Datblygu Cymru ei ymrwymo'n llawn mewn ychydig dros wythnos a gwnaethom drefnu yn y lle cyntaf fod £200 miliwn o gymorth refeniw nad oedd angen ei ad-dalu ar gael er mwyn darparu:

- Grant o hyd at £10,000 ar gyfer microfusnesau (sy'n cyflogi rhwng 1-9), gan gynnwys busnesau newydd ac unig fasnachwyr sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW, sy'n cyflogi staff ac sydd wedi gweld effaith o >40% ar eu trosiant.
- Grant o hyd at £100,000 ar gyfer mentrau bach a chanolig (BBaChau) (sy'n cyflogi rhwng 10-249) sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW, sy'n cyflogi staff ac sydd wedi gweld effaith o >60% ar eu trosiant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Grant o hyd at £690,000, sy'n cael ei ystyried fesul achos, ar gyfer busnesau mawr (sy'n cyflogi 250+) ac sydd wedi gweld effaith o >60% ar drosiant.

Oherwydd y galw digynsail am gymorth o'r gronfa hon, ac oherwydd bod mwy na 6,000 o geisiadau am grantiau wedi dod i law ymhen 24 awr ar ôl i'r gronfa agor, rhyddhawyd swm arall o £100 miliwn o gymorth refeniw nad oedd angen ei ad-dalu. Caewyd y gronfa dros dro ar 27 Ebrill er mwyn ystyried sut orau i ddefnyddio'r arian a oedd yn weddill i gynorthwyo a chyrraedd busnesau, elusennau a mentrau cymdeithasol a oedd mewn angen.

Hyd at 27 Ebrill 2020, daeth dros 6,500 o geisiadau, a oedd yn werth £67 miliwn, i law oddi wrth microfusnesau, a daeth dros 2,500 o geisiadau, a oedd yn werth cyfanswm o £142.8 miliwn, i law oddi wrth BBaChau. Daeth gwerth rhyw £30 miliwn o geisiadau i law am gymorth o'r gronfa ar gyfer busnesau mawr. Ceir dadansoddiad yn Atodiad A o'r ceisiadau a ddaeth i law fesul sector a fesul rhanbarth. Mae swyddogion wrthi'n prosesu'r ceisiadau ac rydym wedi gwneud cynigion sy'n werth mwy na chyfanswm o £100 miliwn i dros 6,000 o fusnesau. Byddaf yn rhoi diweddariad ichi unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Fel y dywedais yn fy natganiad llafar, a chan ymateb i'ch pryderon, bydd ail gam y gwiriwr cymhwysra ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd yn agor yn gynt na'r bwriad erbyn yr wythnos a fydd yn dechrau ar 8 Mehefin 2020 – gan roi amser i gwmnïau baratoi eu ceisiadau. Disgwylir i'r cam ceisiadau llawn agor ar 29 Mehefin 2020. Bydd busnesau, felly, yn gallu gwneud cais am y £100 miliwn sy'n weddill o'r £300 miliwn o gymorth refeniw sydd wedi'i gymeradwyo eisoes. Bydd £100 miliwn o gymorth grant yn cael ei gadw yn y Gronfa Cadernid Economaidd ar gyfer ymyriadau posibl i helpu gyda'r adferiad.

Yn ystod cam cyntaf y Gronfa Cadernid Economaidd, roedd cymorth ar gael i unrhyw fath o fusnes cynaliadwy, beth bynnag ei oedran, sy'n gweithredu yng Nghymru, sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW, sy'n cyflogi pobl drwy gynllun Talu wrth Ennill (PAYE) ac sydd wedi gweld effaith sylweddol ar ei drosiant (40% neu fwy ar gyfer microfusnesau a 60% neu fwy ar gyfer BBaChau/busnesau mawr).

Bydd ail gam y Gronfa'n gweithio fwy neu lai yn yr un ffordd â'r cam cyntaf ond bydd y meini prawf cymhwysra ar gyfer y cynllun micro yn cael eu diweddaru er mwyn i gwmnïau cyfyngedig nad ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW fedru manteisio ar y gronfa (ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf eraill). Mae newidiadau posibl i'r trothwyon trosiant yn cael eu hystyried hefyd. Dim ond unwaith y bydd busnesau'n gallu cael cynnig o'r Gronfa Cadernid Economaidd, ond – os gwrthodwyd eu cais yng ngham 1 ac os yw eu hamgylchiadau wedi newid mewn ffordd berthnasol – byddant yn gallu gwneud cais yng ngham 2.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid ar hyn o bryd i ddatblygu opsiynau cymorth eraill ar gyfer y busnesau hynny nad yw cymorth wedi'u cyrraedd eto, er enghraifft, busnesau newydd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Bydd rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn yn cael ei rhannu â'r Aelodau yn ystod yr wythnosau sydd i ddod.

Yn gywir,



Ken Skates AS/MS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Atodiad A

Dadansoddiad fesul sector o fusnesau sydd wedi gwneud cais o dan y Gronfa Cadernid Economaidd

Sector	Microfusnesau		BBaChau		Busnesau Mawr	
	Cyfanswm y Ceisiadau	Cyfanswm y gofynnwyd amdano	Cyfanswm y Ceisiadau	Cyfanswm y gofynnwyd amdano	Cyfanswm y Ceisiadau	Cyfanswm y gofynnwyd amdano
Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch	102	£1,011,000	127	£7,468,129	24	9,501,060
Gwasanaethau Gofal	55	£524,785	89	£3,096,318	-	-
Adeiladu	2,176	£21,198,561	413	£17,881,160	1	106,000
Y Diwydiannau Creadigol	329	£3,153,950	41	£1,772,557	2	447,000
Amddiffyn a Diogelwch	35	£332,200	9	£393,935	-	-
Ynni a'r Amgylchedd	116	£1,096,300	43	£2,312,359	5	1,673,000
Ffermio	35	£341,663	2	£60,000	-	-
Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol	432	£4,202,056	84	£3,798,308	4	1,377,000
Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod	79	£771,499	48	£2,155,065	6	3,288,000
Gwasanaethau Bwyd a Diod	309	£3,019,749	365	£13,970,006	-	-
Gofal Iechyd a Therapiau Cyflenwol	149	£1,456,000	40	£1,688,746	-	-
TGCh	175	£1,664,320	37	£1,775,864	2	1,146,000
Iaith/Cyfieithu	15	£150,000	4	£322,499	-	-
Gwyddorau Bywyd	16	£153,500	11	£595,000	1	589,000
Morol	23	£230,000	7	£384,000	-	-
Heb Ddewis Sector	16	£149,999	16	£839,000	4	2,270,000
Arall	1,769	£17,165,275	633	£27,835,053	6	2,966,000
Gwasanaethau Rheoli Eiddo Preswyl	31	£300,500	11	£412,500	-	-
Manwerthu	410	£3,994,500	217	£9,927,436	-	-
Twristiaeth	259	£2,518,309	244	£12,521,924	7	3,760,000
Trafnidiaeth	321	£3,167,500	126	£5,609,534	2	760,500
Cyfanswm	6,852	£66,601,666	2,567	£114,819,393	64	27,883,560

Dadansoddiad, fesul rhanbarth, o fusnesau sydd wedi gwneud cais o dan y Gronfa Cadernid Economaidd

Rhanbarth	Cyfanswm y Ceisiadau*	Cyfanswm y gofynnwyd amdano*
Y Canolbarth	674	£11,816,713
Y Gogledd	1,966	£38,877,265
Y De-ddwyrain	4,394	£84,952,555
Y De-orllewin	2,345	£43,806,989
Dim Rhanbarth	42	£1,594,596
Cyfanswm	9,421	£181,048,118

*heb fod yn cynnwys ceisiadau gan fusnesau mawr ac yn cynnwys dau gwmni nad oedd wedi manylu ar y sector.